**HYSBYSIAD YNGHYLCH GWNEUD GORCHYMYN ADDASU MAP DIFFINIOL**

**ADRAN 53 O DDEDDF BYWYD GWYLLT A CHEFN GWLAD 1981**

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR**

**MAP A DATGANIAD DIFFINIOL CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR**

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR (YCHWANEGU LLWYBR TROED O DALE VIEW, CEFN CRIBWR I LWYBR 40 CEFN CRIBWR)**
**GORCHYMYN ADDASU MAP DIFFINIOL RHIF. 1 2025**

Bydd y Gorchymyn uchod a wnaed ar 15/01/2025, os caiff ei gadarnhau fel y'i gwnaed, yn addasu'r Map a'r Datganiad Swyddogol ar gyfer yr ardal drwy ychwanegu atynt y llwybr troed o gyffordd y briffordd a gynhelir yn Dale View, Cefn Cribwr, Pwynt A (Cyfeirnod Grid SS 86418273), ac yn parhau i gyfeiriad cyffredinol y gorllewin am tua 34 metr i'w chyffordd gyda Llwybr Troed 40 Cefn Cribwr ym Mhwynt B (Cyfeirnod Grid SS 86378275).

Gellir archwilio copi o'r gorchymyn a map y gorchymyn, ac maent ar gael yn rhad ac am ddim yn Llyfrgell y Pîl, Canolfan Fywyd y Pîl, Helif Fan, Y Pîl, Pen-y-bont ar Ogwr, CF33 6BS yn ystod ei horiau agor; Dydd Llun i Ddydd Gwener 9:00am tan 6:00pm a Dydd Sadwrn 9:00am tan 3:00pm. Fel arall, gellir archwilio'r gorchymyn a'r map ar-lein yn https://www.bridgend.gov.uk/cy/busnes/trwyddedu/hysbysiadau-cyfreithiol-a-gorchmynion/ neu drwy gysylltu â rightsofway@bridgend.gov.uk neu drwy ffonio: 01656 642545. Yn ogystal, gellir archwilio copi o'r gorchymyn a map y gorchymyn neu maent ar gael yn rhad ac am ddim yn y Dderbynfa Ddinesig yn y cyfeiriad a nodir isod yn ystod oriau swyddfa.

Rhaid anfon unrhyw sylw ynghylch y gorchymyn, neu wrthwynebiad iddo, mewn ysgrifen at K. Watson, Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol, Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr, yn y cyfeiriad isod, heb fod yn hwyrach na **13/03/2025**, a gofynnir i ymgeiswyr nodi'r sail ar gyfer hynny.

Os na wneir sylwadau neu wrthwynebiadau priodol i'r gorchymyn (neu i unrhyw ran ohono), neu os tynnir y sylwadau neu'r gwrthwynebiadau hynny'n ôl, caiff Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, yn lle cyflwyno'r gorchymyn i sylw Gweinidogion Cymru (neu ran ohono os yw'r awdurdod drwy hysbysiad i Weinidogion Cymru wedi ethol o blaid hynny o dan baragraff 5 Atodlen 15 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981), gadarnhau'r gorchymyn (neu ran o'r gorchymyn). Os cyflwynir y gorchymyn i Weinidogion Cymru (yn ei gyfanrwydd neu ran ohono), bydd unrhyw sylwadau neu wrthwynebiadau a wnaed yn briodol ac na thynnwyd mohonynt yn ôl yn cael eu hanfon gydag ef.

Os cewch unrhyw anhawster wrth ymateb mewn ysgrifen, neu os oes angen yr hysbysiad hwn arnoch mewn fformat arall, er enghraifft, print mawr, sain, braille neu ffacs, cysylltwch â'r Adran Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol yn y cyfeiriad isod neu drwy ffonio'r Ganolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid: 01656 643643.

Sylwch y gall y Cyngor ystyried yr holl sylwadau a dderbynnir yn gyhoeddus ac y gallai sylwedd unrhyw sylw (ynghyd ag enw a chyfeiriad y sawl a'i gwnaed) fod ar gael i'w archwilio gan y cyhoedd. Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Bydd unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg, ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at unrhyw oedi cyn ymateb.

**DYDDEDIG:**23/01/2025

K Watson, Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, AD a Pholisi Corfforaethol – Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Y Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB.
K Watson, Chief Officer Legal and Regulatory Services, Human Resources and Corporate Policy – Chief Executive's Directorate, Bridgend County Borough Council, Civic Offices, Angel Street, Bridgend CF31 4WB

Cyf Cyfreithiol: HIG001-1108/A763/1/291